Profion Darllen Cenedlaethol

# DARLLEN
## CC6

Enw cyntaf ______________________________

Cyfenw ______________________________

Ysgol YSGOL CYMERAU

Dosbarth ______________________________

Dyddiad geni ○○ ○○ ○○○○

Dyddiad y prawf ○○ 0 5 2 0 1 8

Cyfanswm y sgôr ☐ (uchafswm 37)

165140

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cwestiynau ymarfer

**Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau ymarfer a fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau'n dweud wrthoch chi beth i'w wneud. I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.**

> Roedd Huw wrth ei fodd ei fod yn cael mynd i farbeciw ei ffrind Dafydd ar ei ben-blwydd yn ddeuddeg oed. Roedd yn mynd gyda'i ffrindiau, Gareth a Rhodri. Ar ôl beicio am chwarter awr, cyrhaeddodd y bechgyn dŷ Dafydd ac ar ôl cadw eu beiciau yn y sied, cerddodd y bechgyn at ardd enfawr Dafydd. Roedd arogl hyfryd pob math o gigoedd yn codi i'r awyr las. Roedd amrywiaeth o weithgareddau i'w gwneud yn dilyn y barbeciw, ond y gêm bêl-droed oedd y gorau ohonyn nhw. Aeth y gêm ymlaen nes iddi dywyllu ac fe sgoriodd Huw a Dafydd sawl gôl yr un.

**a** Gyda phwy aeth Huw i'r barbeciw?

Ticiwch **1.**

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd ei angen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ei rieni | ☐ | ei chwaer | ☐ |
| ei ddau ffrind | ☐ | ei frawd | ☐ |

YSGOL CYMERAU

---

**b** Edrychwch ar y testun yn y bocs isod.

**Tanlinellwch 1** gair sy'n disgrifio gardd Dafydd.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

> Ar ôl beicio am chwarter awr, cyrhaeddodd y bechgyn dŷ Dafydd ac ar ôl cadw eu beiciau yn y sied, cerddodd y bechgyn at ardd enfawr Dafydd.

Awgrym: Os ydych chi'n gwneud camgymeriad ac eisiau newid eich ateb, dylech chi ddileu'r ateb cyntaf yn llwyr cyn tynnu llinell newydd.

---

**c** **Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dweud beth yw oed Dafydd.

______________________

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r ateb.

---

ch Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd ffrindiau Huw wedi mynd gydag ef i'r barbeciw. | | |
| Sgoriodd Huw a Gareth sawl gôl wrth chwarae pêl-droed. | | |
| Dechreuodd hi fwrw glaw yn ystod y barbeciw. | | |

d Rhowch y digwyddiadau isod yn eu trefn, o 1 i 5, fel y maen nhw'n digwydd yn y stori. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Y bechgyn yn arogli'r bwyd yn coginio. | |
| Chwarae gêm bêl-droed. | |
| Beicio i dŷ Dafydd. | |
| Cadw beiciau yn y sied. | |
| Huw yn edrych ymlaen at gael mynd i'r barbeciw | 1 |

YSGOL CYMERAU

dd Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r gair â'r disgrifiad cywir.

| | |
|---|---|
| gardd | hyfryd |
| awyr | enfawr |
| arogl | las |

**STOPIWCH**

**Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.**

**Yn y llyfryn hwn mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus CYN dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn yn ofalus CYN ateb y cwestiynau ac yn y blaen.**



**Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, hyd at ddiwedd tudalen 15, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch chi am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.**

**Mae gennych chi hyd at 60 munud i wneud y prawf.**


# Gwastraff llwyr!

Wyddoch chi beth yw'r gwahaniaeth rhwng **ailgylchu** ac **uwchgylchu**?

Wrth **ailgylchu** poteli plastig a gwydr, er enghraifft, mae'r plastig a'r gwydr yn cael eu trosi i ffurfio defnydd newydd. Ond, wrth **uwchgylchu** dodrefn a dillad, nid oes defnydd newydd yn cael ei gynhyrchu, ond yn hytrach, maen nhw'n cael eu defnyddio eto ar eu newydd wedd. Mae uwchgylchu, felly, yn defnyddio llai o egni nag ailgylchu.


→


Ailgylchu'r plastig sydd mewn poteli i wneud mainc newydd.


→


Uwchgylchu hen bâr o jîns i wneud bag denim newydd.

**Ailgylchu – ffeithiau diddorol**

- Mae'n bosib ailgylchu hyd at 60% o'r sbwriel rydym yn ei roi yn y bin.
- Mae modd ailgylchu 80% o gar.
- Mae ailgylchu un can metel yn arbed digon o egni i roi pŵer i deledu am 3 awr.
- Mae ailgylchu un botel wydr yn arbed digon o egni i bweru cyfrifiadur am 25 munud.
- Mae ailgylchu un botel blastig yn arbed digon o egni i roi pŵer i fwlb 60 watt am 3 awr.

Yng **Nghymru**, mae dinasoedd a threfi fel Caerdydd, Aberystwyth a Wrecsam ymhlith y pum lle gorau ym Mhrydain am uwchgylchu.

Yn 2015, cafodd y Diwrnod Uwchgylchu Cenedlaethol cyntaf ei gynnal, a does dim rhyfedd, oherwydd bod dros 10 miliwn o ddarnau o ddodrefn yn mynd i'r canolfannau gwastraff bob blwyddyn! Y math o weithgaredd a drefnwyd ar y diwrnod oedd her gwnïo i greu cynnyrch i godi arian tuag at achosion da. Dyma sylwadau gan ddwy ferch o Gymru ar un wefan uwchgylchu:

"Gwirfoddolwch awr o'ch amser i helpu i wneud trowsusau byr wedi'u huwchgylchu o jîns denim."

"Mae gen i obsesiwn – torri dillad a'u gwnïo'n ôl at ei gilydd ar newydd wedd. Dw i wedi bod wrthi ers oeddwn i'n blentyn – wedi cael cryn dipyn o ymarfer erbyn hyn, felly!"

**. . . ac mewn rhannau eraill o'r byd . . .**

Mae Kamikatsu yn dref yn **ne Japan** gyda 1,700 o drigolion. Yn wahanol i Gymru, does ganddyn nhw ddim loriau i gasglu sbwriel o finiau y tu allan i dai. Mae'n rhaid i'r trigolion fynd â'r gwastraff i ganolfannau arbennig. Ond cyn mynd, rhaid golchi'r cyfan a'i ddidoli i 34 o gategorïau. Dyna ichi waith gwahanu! Mae ganddyn nhw hefyd ffatrïoedd sy'n uwchgylchu nwyddau gan greu bagiau allan o hen ddillad fel *y kimono*.

Yn **America**, mae bachgen o'r enw Ryan wedi dechrau ei gwmni ailgylchu ei hun. Pan oedd ond yn dair a hanner oed, roedd e'n hoffi casglu poteli plastig. Erbyn hyn, mae wedi casglu 200,000 o boteli a chaniau. Bydd peth o elw cwmni Ryan yn mynd tuag at dalu am ei gyfnod yn y coleg.

Dim ond 1% o wastraff **Sweden** sy'n cael ei gladdu yn y ddaear. Mae yno 32 o ganolfannau sy'n llosgi gwastraff i greu egni fel gwres a thrydan i dai. Maen nhw'n derbyn gwastraff o wledydd fel Norwy, Iwerddon, yr Eidal a Phrydain, ac yn ei droi yn egni. Yn ninas Eskilstuna, mae canolfan siopa sy'n derbyn hen nwyddau i'w huwchgylchu ac, ar yr un pryd, mae cwsmeriaid yn gallu prynu rhywbeth newydd o'r siopau.

**1** Pam mae ebychnod ar ddiwedd y frawddeg isod?

*Yn 2015, cafodd y Diwrnod Uwchgylchu Cenedlaethol cyntaf ei gynnal, a does dim rhyfedd, oherwydd bod dros 10 miliwn o ddarnau o ddodrefn yn mynd i'r canolfannau gwastraff bob blwyddyn!*

Ticiwch **1.**

- I godi ofn ar y darllenydd. ☐
- I ddangos rhywbeth gwahanol i atalnod llawn. ☐
- I ddangos syndod. ☐
- I dynnu sylw at ganolfannau gwastraff. ☐

1 1m

**2** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Dydy pobl dinas Caerdydd ddim yn uwchgylchu. | | |
| Dydy Norwy ddim yn anfon ei gwastraff i Sweden. | | |
| Mae Sweden yn claddu 10% o'i gwastraff. | | |
| Mae canolfan siopa yn Sweden yn derbyn nwyddau i'w huwchgylchu. | | |
| Does dim loriau casglu sbwriel yn Kamikatsu. | | |

2 2m

**3** Edrychwch ar y paragraff am dde Japan.

Rhowch y canlynol yn eu trefn, o 1 i 3, i ddangos y broses ailgylchu.

- Golchi'r gwastraff. ☐
- Mynd â'r gwastraff i ganolfan arbennig. ☐
- Didoli i 34 categori. ☐

3 1m

*trosodd*

CYFANSWM 4m

**4** Yn ôl y darn, pam nad oes loriau casglu sbwriel yn nhref Kamikatsu, de Japan?

Ticiwch **2.**

- Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y trigolion i ailgylchu ac uwchgylchu. ☐
- Does dim gwastraff yn cael ei gynhyrchu. ☐
- Mae ganddyn nhw ganolfannau gwastraff arbennig. ☐
- Dydy ailgylchu ddim yn bwysig yn Japan. ☐
- Mae gormod o sbwriel i'w gasglu. ☐

4 — 1m

---

**5** Yn ninas Kamikatsu, mae'r trigolion yn didoli'r gwastraff i 34 o gategorïau.
Beth yw ystyr *didoli*?

Ticiwch **1.**

- golchi ☐
- pwyso ☐
- gwahanu ☐
- malu ☐
- labelu ☐

5 — 1m

YSGOL CYMERAU

---

**6** Mae un ferch o Gymru wedi ysgrifennu:

*Mae gen i obsesiwn – torri dillad a'u gwnïo'n ôl at ei gilydd ar newydd wedd. Dw i wedi bod wrthi ers oeddwn i'n blentyn – wedi cael cryn dipyn o ymarfer erbyn hyn, felly!*

Beth mae hyn yn ei olygu?

Ticiwch **1.**

- Mae'n dangos bod angen llawer o ymarfer i uwchgylchu dillad. ☐
- Mae'n dangos ei bod hi wedi blino ar ymarfer. ☐
- Mae'n dangos ei bod hi wedi bod yn uwchgylchu ers blynyddoedd. ☐
- Mae'n dangos mai plentyn sydd wedi'i ysgrifennu. ☐

6 — 1m

---

**7** Beth yw ystyr y gair *her* yn y frawddeg isod?

*Y math o weithgaredd a drefnwyd ar y diwrnod oedd her gwnïo i greu cynnyrch i godi arian.*

Ticiwch **1**.

- amser ☐
- sialens ☐
- cyfnod ☐
- ymarfer ☐
- gwers ☐

7 — 1m

**8** Ble mae Eskilstuna?

Ticiwch **1**.

- Norwy ☐
- Japan ☐
- Sweden ☐
- Yr Eidal ☐

8 — 1m

YSGOL GYMERAU

**9** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r pethau isod.

| | |
|---|---|
| uwchgylchu | creu egni fel gwres a thrydan |
| her gwnïo | newid golwg hen bethau |
| trigolion Kamikatsu | codi arian at achosion da |
| canolfan llosgi gwastraff | gwahanu gwastraff i gategorïau |

9 — 1m

*trosodd*




CYFANSWM 6m

# Ar daith i Wlad Thai

**Dyma fachgen o'r enw Siôn yn cael ei holi am ei wyliau yng Ngwlad Thai.**

**Rwyt ti, dy frawd a dy rieni wedi bod yn teithio'r byd ers chwe mis ac wedi gweld rhyfeddodau, mae'n siŵr. Rwy'n deall ichi dreulio pythefnos yng Ngwlad Thai.**
Do, fe arhoson ni, fel teulu, yng nghanol Bangkok, prifddinas Gwlad Thai, mewn ardal dwristaidd am yr wythnos gyntaf. Roedd stondinau blith draphlith ar ochr y stryd yn gwerthu pob math o bethau, gan gynnwys pryfed wedi'u ffrio a dillad Thai lliwgar. Roedd y strydoedd yn fudr ac yn llawn arogleuon newydd: rhai yn bleserus ac eraill yn annymunol dros ben.



**Yn wahanol iawn i Gymru, felly?**
Yn bendant. Ar y diwrnod cyntaf, fe gawson ni brofiad chwyslyd mewn *tuk tuk*. Aeth y modur bach tair olwyn â ni i sawl lleoliad llachar yng nghanol y ddinas. Roedd hi'n digwydd bod yn ddiwrnod cenedlaethol y Bwdha ac felly roedd mynediad i sawl teml yn y ddinas am ddim. Gwibiai'r cerbydau bach yn wyllt ar hyd y ddinas ac roedd miloedd ohonyn nhw yn teithio ar yr un stryd. Roedd pob gyrrwr *tuk tuk* yn brwydro am fusnes.


**Ac oeddet ti'n mwynhau hyn i gyd?**
Roeddwn i wrth fy modd gyda bwrlwm y ddinas wallgof, swnllyd a phrysur. Ces i hwyl yn bargeinio am brisiau da ar y stondinau.

YSGOL GYMERAU



**Ble aethoch chi wedyn?**
Wedi wythnos yn y brifddinas, fe symudon ni ymlaen i brofi bywyd rhai o ynysoedd Gwlad Thai gan gynnwys Ko Samui. Roedd y lle'n llawn o dwristiaid. Ond unwaith inni gyrraedd Taling Ngam ar yr ynys, fe gawson ni flas ar fywyd y bobl gyffredin. Doedd fawr o ddim byd yn y lle hwn, dim ond ambell stondin, mynachdy a theml, ac un bwyty ar y traeth. Dyma ble cwrddon ni â Mr Suk, dyn addfwyn iawn oedd yn ein helpu os oedd angen tacsi neu gymorth arall arnon ni. Roedd ganddo stondin lle roedd yn ffrio bananas a thatws a rhyw fath o semolina mewn peli bach, a hynny ar ochr y stryd wrth ymyl y tŷ lle roedden ni'n aros. Roedd hi'n bosib cael pryd da i'r pedwar ohonon ni am £3!

**Beth sy'n aros yn y cof am yr ail wythnos?**
Ar ddiwedd y dydd, bydden ni'n cerdded i'r pentref ryw hanner milltir i lawr y ffordd i gael gweld yr haul yn machlud a chael diod oer ar y traeth. Roedd pysgotwyr lleol yn dod i geisio dal eu swper ac roedd un ffermwr yn dod â byffalo dŵr am dro i gael ymarfer corff. Roedd y ffermwr yn arwain yr anifail anferth i mewn i'r môr i gael sefyll i oeri ei gorff ar ôl diwrnod o sefyll mewn cae yn yr haul tanbaid. Roedd bywyd yn syml iawn yno.



**1** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd Siôn wedi bod ar wyliau gyda'i chwaer a'i rieni. | | |
| Roedd Gwlad Thai yn debyg iawn i Gymru. | | |
| Mae Ko Samui yn ynys. | | |
| Doedd dim llawer o gerbydau *tuk tuk* i'w gweld ar strydoedd Bangkok. | | |
| Roedd pryd o fwyd i un yn costio £3. | | |

1 2m

**2** Rhifwch y digwyddiadau hyn yn y drefn y digwyddon nhw, o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Ffermwr yn arwain y byffalo dŵr i'r môr. ☐

Teithio mewn *tuk tuk*. ☐

Mynd i aros yn Taling Ngam. ☐

Cyfarfod â Mr Suk. ☐

Cyrraedd Bangkok. 1

YSGOL CYMERAU

2 1m

**3** Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r pethau isod.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| blith draphlith | poeth ofnadwy |
| annymunol | ar draws ei gilydd |
| bwrlwm | ddim yn bleserus |
| tanbaid | llawer o brysurdeb |

(blith draphlith — ar draws ei gilydd)

3 1m

*trosodd*



CYFANSWM 4m

**4** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob dewis.

Yng Ngwlad Thai, gwelodd Siôn stondinau yn gwerthu . . .

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| pysgod ffres. | | |
| pryfed wedi'u ffrio. | | |
| dillad Thai lliwgar. | | |
| bananas wedi'u ffrio. | | |
| reis ar blât. | | |

4 2m

**5** Darllenwch eto y paragraff sy'n dechrau *Yn bendant.*

**Dewiswch** a **chopïwch 2** air sy'n awgrymu bod y *tuk tuk* yn symud yn gyflym.

1. ______________________________

2. ______________________________

5 2m

YSGOL CYMERAU

**6** Yn ôl Siôn, nid oedd y daith mewn *tuk tuk* yn gyfforddus.

**Dewiswch** a **chopïwch 1** gair sy'n dangos hynny.

> Ar y diwrnod cyntaf, fe gawson ni brofiad chwyslyd mewn *tuk tuk*. Aeth y modur bach tair olwyn â ni i sawl lleoliad llachar yng nghanol y ddinas.

__________________________________________

6 1m

**7** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r pethau isod.

| | |
|---|---|
| Bangkok | yn llawn twristiaid |
| Gwlad Thai | un bwyty ar y traeth |
| Ko Samui | dinas swnllyd a phrysur |
| Taling Ngam | ei phrifddinas yw Bangkok |

7 1m

**8** Pa ffurf ysgrifennu sydd yn y darn hwn?

Ticiwch **1**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| cerdd | ☐ | dyddiadur | ☐ |
| poster | ☐ | cyfweliad | ☐ |
| llythyr | ☐ | portread | ☐ |

8 1m

**9** Pa air sy'n disgrifio Mr Suk orau?

Ticiwch **1**.

| | |
|---|---|
| hunanol | ☐ |
| blin | ☐ |
| diog | ☐ |
| cymwynasgar | ☐ |

9 1m

**10** **Dewiswch** a **chopïwch 1** ansoddair sydd yn y frawddeg isod.

YSGOL CYMERAU

Dyma ble cwrddon ni â Mr Suk, dyn addfwyn iawn oedd yn ein helpu os oedd angen tacsi neu gymorth arall arnon ni.

____________________________________

10 1m

**11** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob dewis.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Prifddinas gwlad Thai yw Taling Ngam. | | |
| Mae sawl lle bwyta ar y traeth yn Taling Ngam. | | |
| Math o gerbyd tair olwyn yw *tuk tuk*. | | |
| Mae Bangkok yn lle prysur. | | |

11 2m

*trosodd*

CYFANSWM 11m

# Ras yr Wyddfa



Mae ras yr Wyddfa yn un o rasys mynydd gorau a phwysicaf Ewrop ac, yn ôl y rhedwyr, mae'n galetach nag unrhyw ras fynydd arall. Mae'r ras yn dechrau wrth Lyn Padarn, Llanberis, ac yn mynd i ben mynydd uchaf Cymru ac yn ôl i lawr, sef pellter o 10 milltir. Cafodd y ras gyntaf ei chynnal ar 19 Gorffennaf 1976. Ken Jones o bentref Llanberis gyflwynodd y syniad o gynnal ras i bwyllgor Carnifal Llanberis a fe drefnodd y ras ar y dechrau. Dywedodd mai da o beth fyddai trefnu ras o'r pentref i gopa'r Wyddfa ac yn ôl. Roedd 86 o redwyr i gyd yn cystadlu yn y ras gyntaf, a'r enillydd oedd y Sais Dave Francis, a gwblhaodd y cwrs mewn 1 awr, 12 munud a 5 eiliad.

Darlledwyd ras yr Wyddfa yn fyw am y tro cyntaf ar y teledu yn 1987 ar S4C. Yn ôl y trefnwyr, dyma'r tywydd gwaethaf erioed ar gyfer y ras. Roedd cymaint o niwl a glaw y flwyddyn honno fel nad oedd modd gweld dim ar ôl cyrraedd hanner ffordd i'r copa. Erbyn hyn, mae'r Wyddfa yn un o'r mynyddoedd mwyaf poblogaidd i'w dringo ym Mhrydain, a dyna rywfaint o'r atyniad i rai rhedwyr – cael y teimlad bod yna wylwyr a chefnogwyr ar hyd y llwybr i'r copa ac i lawr wedyn. Dyma rai o sylwadau'r rhedwyr dros y blynyddoedd am ras yr Wyddfa:

"Hon oedd y ras fynydd gyntaf i gael ei threfnu'n dda. Nid maint y ras sy'n bwysig. Os ydy ras fechan yn cael ei threfnu'n iawn ac yn dod yn rhan o ddiwylliant a thraddodiad ardal mae hynny yn bwysicach."

*Giampietro Botta, rhedwr o Morbegno, yr Eidal*

"Gallaf i ymdopi efo'r glaw, ond mae gwynt cryf neu fellt yn beryglus. Mae fy amser yn dibynnu'n hollol ar y tywydd."

*Llinos Price, rhedwr o Lanberis*

"Mae'r tywydd yn gallu troi yn gyflym iawn, sy'n beryglus. Rhaid cael meddwl a chorff cryf."

*Siân Richards, rhedwr o Gymru*

YSGOL CYMERAU



"Dw i'n hapus efo'r amser a'r trydydd safle – grêt!"

*Alun Vaughan, rhedwr a ddaeth yn drydydd yn y ras un flwyddyn*

"Fel arfer mae hi'n boeth iawn, ond roedd hi ychydig yn oerach heddiw ac felly roedd y ras dipyn yn haws."

*Ian Holmes, enillodd y ras dair gwaith i gyd*

"Digwyddiad pwysig iawn yn lleol sy'n denu twristiaid ac sy'n fodd o roi Llanberis ar y map."

*Malcolm Williams, sydd wedi cystadlu ym mhob ras ers y dechrau*

Mae ras fynydd i'w chael yn yr Eidal hefyd. Ras y Trofeo Vanoni yw honno.
**Dyma rai ffeithiau am ras yr Wyddfa a ras y Trofeo Vanoni.**

| | Ras yr Wyddfa | Ras y Trofeo Vanoni |
|---|---|---|
| **Dyddiad cynnal y ras gyntaf** | 1976 | 1957 |
| **Y mis y cynhelir y ras** | mis Gorffennaf | mis Hydref |
| **Man dechrau'r ras** | pentref Llanberis | tref Morbegno |
| **Math o ras** | ras i unigolion i fyny'r Wyddfa ac yn ôl i lawr | ras i dimau o 3 trwy ganol tref Morbegno ac yna ar hyd llwybrau a thrac cyn mynd yn ôl i'r dref. |
| **Hyd y ras** | 10 milltir | 4 milltir |

**1** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r parau.

| | |
|---|---|
| Dave Francis | wedi ennill dair gwaith |
| Malcolm Williams | wedi cystadlu ym mhob ras |
| Siân Richards | enillydd y ras gyntaf |
| Ian Holmes | rhedwr o Gymru |

1
1m

**2** Beth oedd gan redwr o Morbegno i'w ddweud am ras yr Wyddfa?

Ticiwch **2.**

- Chafodd y ras gyntaf ddim ei threfnu'n dda. ☐
- Dyma'r ras fynydd gyntaf i gael ei threfnu'n dda. ☐
- Nid maint y ras sy'n bwysig. ☐
- Maint y ras sy'n bwysig. ☐
- Rydyn ni'n dod yma i ennill a dim arall. ☐

2
1m

YSGOL GYMERAU

**3** Yn ôl y darn, beth oedd Ken Jones yn ei wneud?

Ticiwch **1.**

- Fe oedd yn trefnu ras y Trofeo Vanoni. ☐
- Fe oedd yn trefnu ras yr Wyddfa. ☐
- Roedd e'n gweithio i S4C. ☐
- Roedd e'n rhedeg ras yr Wyddfa. ☐

3
1m

**4** Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn, o 1 i 4.

- Y ras gyntaf yn cael ei chynnal yn 1976. ☐
- Ken Jones yn cyflwyno syniad o gynnal ras i bwyllgor Carnifal Llanberis. ☐
- Ras yr Wyddfa yn fyw ar S4C am y tro cyntaf yn 1987. ☐
- Ken Jones yn cael y syniad o gychwyn ras o bentref Llanberis i gopa'r Wyddfa ac yn ôl. ☐

4
1m

*trosodd*

CYFANSWM
4m

**5** Tynnwch **5** llinell i ddangos pwy ddywedodd beth am ras yr Wyddfa.

| | |
|---|---|
| Rhaid cael meddwl a chorff cryf. | Ken Jones |
| Mae'n rhoi Llanberis ar y map. | Giampietro Botta |
| Mae gwynt cryf neu fellt yn beryglus. | Siân Richards |
| Da o beth fyddai trefnu ras. | Malcolm Williams |
| Nid maint y ras sy'n bwysig. | Llinos Price |

5 1m

**6** Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r geiriau â'r ystyron.

| | |
|---|---|
| copa | arferion pobl mewn ardal |
| diwylliant | rhan uchaf y mynydd |
| pwyllgor | rhywbeth sy'n apelio |
| atyniad | grŵp sy'n trafod |

YSGOL CYMERAU

6 1m

**7** Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae ras yr Wyddfa yn mynd i'r copa ac yn ôl. | | |
| Mae ras yr Wyddfa a ras y Trofeo Vanoni yr un pellter. | | |
| Mae tref Morbegno yn yr Eidal. | | |
| Mae ras yr Wyddfa ar gyfer timau o redwyr. | | |
| Ym mis Gorffennaf y cynhelir ras y Trofeo Vanoni. | | |

7 2m

**8** Beth yw'r enw ar y ras fynydd yn yr Eidal?

Ticiwch **1**.

- Ras Llanberis ☐
- Ras y Trofeo Vanoni ☐
- Ras yr Wyddfa ☐
- Ras Morbegno ☐

8 1m

**9** **Tanlinellwch 1** gair sy'n golygu bod y ras yn heriol iawn.

> Mae ras yr Wyddfa yn un o rasys mynydd gorau a phwysicaf Ewrop ac, yn ôl y rhedwyr, mae'n galetach nag unrhyw ras fynydd arall.

9 ◯ 1m

**10** Darllenwch y paragraff cyntaf eto. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** i gwblhau'r tabl ffeithiau am ras yr Wyddfa

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae ras yr Wyddfa yn mynd i ben mynydd uchaf Cymru. | | |
| Mae ras yr Wyddfa yn dechrau wrth ymyl Llyn Peris. | | |
| Ras i'r copa yn unig yw ras yr Wyddfa. | | |
| Ras 10 milltir o bellter yw ras yr Wyddfa. | | |
| Mae ras yr Wyddfa yn cael ei chynnal mewn tywydd braf yn unig. | | |

10 ◯ 2m

YSGOL CYMERAU

**Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.**

CYFANSWM ◯ 8m

YSGOL CYMERAU

**Diolchiadau**

'Ar daith i Wlad Thai' addaswyd o *Anferthedd yn Bangkok* gan Lois Eckley (Golwg, 2016)

Mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y papur prawf hwn at ddibenion
yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.
Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2018